# CYSWLLT

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Papur newydd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful *Rhifyn* 63 *Rhagfyr* 2022



Croeso i bobl Wcráin
Вітаємо всіх українських гостей !
**Tudalen 3**

Ailgylchu Nadolig – **tudalen 5**
Amseroedd cyffrous i ganol y dref – **tudalen 7**

# EICH CYNGOR



## Croeso i rifyn diweddaraf Papur newyddion Cyswllt.

Mae hi'n fraint ac anrhydedd bod yn Arweinydd Cyngor y dref y tyfais fyny ynddi.

Rydw i wedi dysgu llawer am wasanaeth cyhoeddus yn y pum mlynedd diwethaf fel aelod etholedig. Fel yr Arweinydd newydd, rydw i'n hyderus y gallaf, gyda chefnogaeth fy nghyd aelodau etholedig a swyddogion wneud y gwelliannau angenrheidiol i wella bywyd y rheiny sy'n byw a gweithio yn y Fwrdeistref Sirol.

Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n amser heriol iawn i'r sector cyhoeddus gyda chyllidebau gyfyngedig iawn. Byddaf i ac arweinwyr eraill yn parhau i annog Llywodraeth Cymru am well pecyn cyllido er mwyn gallu cynnig gwasanaethau sy'n darparu gwerth am arian i'n cymunedau.

Iers rhifyn diwethaf Cyswllt, mae Etholiadau Lleol mis Mai wedi bod. Gweler y dudalen gyferbyn am fanylion eich cynghorwyr lleol. Rydym yn ffodus iawn i gael aelodau mor ymroddgar sydd eisiau gwneud y gorau i'w cymunedau.

Hefyd gyferbyn ceir erthygl am y Cabinet. Ein hamcan fel Cabinet yw adeiladu ar ein llwyddiant o drawsnewid y Cyngor a gweithio ochr yn ochr â'n swyddogion i wneud Merthyr Tudful y lle gorau y gall fod.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r argyfwng costau byw, ac mae'r agenda gwrth dlodi yn uchel ar ein rhestr flaenoriaethau. Yn ddiweddar trefnodd cydweithwyr yn y Cyngor gyfarfod gyda phartneriaid i drafod yr argyfwng costau byw a beth allwn ni ei wneud i gefnogi ein preswylwyr. Roedd yn amlwg o'r cyfarfod bod llawer o waith yn mynd 'mlaen yn y cymunedau a llawer o gefnogaeth ar gael trwy amrywiaeth o asiantaethau.

Rydym nawr yn dod a'r wybodaeth at ei gilydd a chyflwyno rhifyn arbennig o Cyswllt, yn dangos y gefnogaeth sydd ar gael i'ch cynorthwyo yn yr amseroedd digynsail yma. Bydd yn cael ei gyhoeddi a'i anfon i breswylwyr yn yr wythnosau nesaf ac ar gael ar wefan y Cyngor ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Yn y rhifyn hwn o Cyswllt, rydym yn dathlu rhai o lwyddiannau ein hysgolion (gweler tudalen 4), eich diweddaru am brojectau adfywio cyffrous (tudalennau 6 & 7), ac yn dod a gwybodaeth am ail-gylchu dros y Nadolig(tudalen5). Gobeithio y gwnewch fwynhau darllen am yr holl bethau da sy'n digwydd yn ei Bwrdeistref Sirol odidog.

Gan ddymuno Nadolig llawen a 2023 hapus ac iach.

G. V. Thomas

Cynghorydd Geraint Thomas
Arweinydd

## Mae Gwyddel a gwympodd mewn cariad gyda Merthyr Tudful...

...ar ymweliad 21 mlynedd yn ôl wedi ei ethol yn Faer y fwrdeistref sirol am y flwyddyn 2022-23.

Cymerodd y Cyng. Declan Sammon, sy'n byw yn Nowlais ac yn cynrychioli ward Dowlais ers 2017 yr awenau yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

Ganwyd Declan yn Clarecastle, pentref i'r de o Ennis yn Swydd Clare, a death gyntaf I Ferthyr Tudful yn 2001 wrth chwilio am eiddo busnes i'w brynu.

"Disgynnais mewn cariad," meddai. "Rydw I wedi byw mewn sawl lle, pob un ohonynt yn hyfryd, ond ddim un yn cymharu gyda Merthyr Tudful- sydd bellach yn gartref i mi. Mae'r bobl yn onest, cyfeillgar a chroesawgar ac mae wedi bod yn bleser gweithio dros y preswylwyr yn fy rôl fel cynghorydd dros y bum mlynedd ddiwethaf."

Mae'r Maer newydd wedi dewis cefnogi dwy elusen leol: Cancer Aid Merthyr Tudful, sy'n cynnig cymorth i gleifion canser a'u teuluoedd a Banc bwyd Merthyr Cynon.

Cymar Declan yn ystod y flwyddyn fydd y Cyng. Paula Layton, ei gymer ers 18 mlynedd ac.

Y Dirprwy Faer ar gyfer 2022/23 yw Maer y flwyddyn ddiwethaf, y Cyng. Malcolm Colbran, sy'n cynrychioli ward Bedlinog a effeithiwyd yn sylweddol ar ei gyfnod fel Maer gan y pandemig.

I wahoddi'r Maer i ddigwyddiad, cysylltwch mayoral@merthyr.gov.uk



## Cabinet hanesyddol newydd Merthyr Tudful

Am y tro cyntaf erioed yn hanes Merthyr Tudful, mae dros hanner Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn awr yn fenywod.

Mae gan y Cyngor arweinydd newydd, yn dilyn etholiad a Chyfarfod Blynyddol Cyffredinol y mis hwn ac mae tri allan o'r chwe aelod o'r Cabinet yn fenywod a dwy ohonynt yn gynghorwyr newydd.

Yr Arweinydd yw'r Cynghorydd Geraint Thomas sydd wedi bod yn Ddirprwy Arweinydd yn ystod yr 16 mis diwethaf. Apwyntiwyd y Cynghorydd Julia Jenkins yn Aelod o'r Cabinet ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cynghorydd Michelle Symonds yn Aelod o'r Cabinet ar gyfer Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Trosedd ac Anhwylder.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas: *"Dyma'r Cabinet mwyaf amrywiol yn hanes y fwrdeistref sirol. Rwy'n falch i weld dau unigolyn talentog ac uchelgeisiol yn ymuno â'n tîm profiadol sydd yn gweithio'n galed ac rydym yn croesawu'r Cynghorydd Andrew Barry i'w rôl fel Aelod o'r Cabinet ar gyfer Llywodraethu ac Adnoddau, y Cynghorydd David Hughes fel Aelod o'r Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cymdogol a'r Cynghorydd Michelle Jones fel Aelod o'r Cabinet ar gyfer Dysgu."*

Cadwodd y Cynghorydd Thomas ei bortffolio ar gyfer Tai ac Adfywio a daeth y Cynghorydd Barry yn Ddirprwy Arweinydd.



## Gwahoddiad i breswylwyr ddweud eu dweud am gyllideb y Cyngor

Mae preswylwyr Merthyr Tudful yn cael y cyfle i leisio barn am sut y dylai y Cyngor wario eu cyllideb am 2023/24.

Mae ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y gweill ar hyn o bryd a tros y misoedd nesaf bydd Cabinet y Cyngor ar hyd a lled Merthyr Tudful yn eich annog chi y preswylwyr pa wasanaethau y dylid eu blaenoriaethu yn ogystal a sut y credwch y dylid gosod y gyllideb am y flwyddyn i ddod. Bydd Aelodau y Cabinet ar gael i wrando,i ateb cwestiynau ac i rannu awgrymiadau gyda cydweithwyr a thrafod.

Ar adeg argraffu, roedd manylion dyddiadau y daith yn cael eu cwblhau. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y rhain, ewch i'n gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Mae arolwg ar-lein are gael yma: smartsurvey.co.uk/s/MTCBCBudget23-24

Hefyd, gellir archebu copiau papur trwy ffonio 01685275000 neu e-bostio: Corporate.Communications@merthyr.gov.uk

Bydd yr arolwg hwn yn ca ear dydd Mercher Ionawr 18 2023.


## Eich Cyngor

Yn dilyn Etholiad y Gwanwyn eleni, gweler isod rhestr o Gynghorwyr gan Adran Etholiadol:

BEDLINOG A THRELEWIS



Cynghorydd Malcolm Colbran
Annibynnol
Dirprwy Maer




Cynghorydd Michelle Symonds
Annibynnol
Aelod Cabinet dros Diogelwch y Cyhoedd, Trosedd ac Anhrefn

CYFARTHFA



Cynghorydd Claire Jones
Annibynnol



Cynghorydd Geraint Thomas
Annibynnol
Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Tai ac Adfywio



Cynghorydd Michelle Jones
Annibynnol
Aelod Cabinet dros Dysgu

DOWLAIS A PANT



Cynghorydd David Hughes
Annibynnol
Aelod Cabinet dros Gwasanaethau Cymdogaeth




Councillor Declan Sammon
Annibynnol
Maer

DOWLAIS A PANT



Councillor Paula Layton
Annibynnol


GURNOS



Cynghorydd Jeremy Davies
Annibynnol




Cynghorydd Lee Davies
Annibynnol




Cynghorydd Bill Smith
Llafur Cymru

YNYSOWEN




Cynghorydd Darren Roberts
Llafur Cymru
Arweinydd yr Wrthblaid




Cynghorydd Scott Thomas
Llafur Cymru

PARC




Cynghorydd Clive Jones
Llafur Cymru
Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid



Cynghorydd Louise Minett-Vokes
Llafur Cymru


PENYDARREN



Cynghorydd Kevin Gibbs
Llafur Cymru




Cynghorydd David Isaac
Llafur Cymru




Cynghorydd Jamie Scriven
Llafur Cymru

PLYMOUTH



Cynghorydd Brent Carter
Llafur Cymru



Cynghorydd Gareth Lewis
Llafur Cymru



Cynghorydd Anna Williams- Price
Llafur Cymru

Y DREF



Cynghorydd Andrew Barry
Annibynnol
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lywodraethu ac Adnoddau



Cynghorydd Julia Jenkins
Annibynnol
Aelod Cabinet dros Gwasanaethau Cymdeithasol

Y DREF




Cynghorydd David Jones
Llafur Cymru




Cynghorydd John Thomas
Annibynnol


TREHARRIS



Cynghorydd Ernie Galsworthy
Llafur Cymru



Cynghorydd Gareth Richards
Llafur Cymru




Cynghorydd Ian Thomas
Llafur Cymru

VAYNOR



Cynghorydd Lisa Mytton
Annibynnol



Cynghorydd Clive Tovey
Annibynnol

## Cyngor yn ennill Gwobrau'r Lluoedd Arfog

Mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ddydd Mercher 5 Hydref, llongyfarchodd Eiriolwr y Lluoedd Arfog CBSMT, y Cynghorydd Andrew Barry, yr Awdurdod ar ennill dwy wobr clodwiw gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Ym mis Awst dyfarnwyd Gwobr Arian y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r Cyngor am ei Gynllun Cydnabod Cyflogwr Amddiffyn i gydnabod ei gefnogaeth i'n Gwasanaeth, Milwyr Wrth Gefn, Cyn-filwyr a'u teuluoedd o fewn Cymuned y Lluoedd Arfog.

Ac ym mis Medi, enillodd Ysgol Uwchradd Cyfarthfa statws efydd Ysgolion Cyfeillgar i'r Lluoedd Arfog (AFFS) Cymru, i gydnabod lefel y gefnogaeth a'r ystod o weithgareddau a gynigir i fyfyrwyr y mae eu rhieni naill ai'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu gyda Lluoedd Arfog Prydain.

Dywedodd y Cynghorydd Barry: *"Rydym yn hynod falch o fod wedi cael ein cydnabod gan y Gwobrau mawreddog hyn wrth fynegi ein haddewid, ein gwrthdystiad a'n cefnogaeth eiriolaeth i'n hamddiffyniad a Chymuned y Lluoedd Arfog a'n gwerthoedd aliniedig i deulu'r Lluoedd Arfog.*

*"Rwy'n diolch yn ddiffuant i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i'r achos teilwng iawn hwn."*

Roedd yr holl wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar adeg ei hargraffu.

# GOFAL CYMDEITHASOL













## Diolch i bawb a gefnogodd Operation Santa 2022!

Mae eich haelioni wastad yn rhagorol a doedd eleni – hyd yn oed yn ystod y cyfnod heriol hwn – ddim yn wahanol. Rydych wedi rhoi anrhegion I blant a fyddai o bosib heb gael Nadolig I'w ddathlu.

O waelod calon, diolch yn fawr iawn a Nadolig Llawen.

Oddi wrth staff Adran Gwasanaethau Cymdeithasol CBSMT.

## *'Gwrandewch' ar ein gwefan os byddai'n well gennych!*

Yn gynharach eleni, cyflwynodd y Cyngor far offer hygyrchedd ar gyfer ei wefan o'r enw "Recite Me" gyda'r nod o wneud y cynnwys yn haws i'w ddarllen, ei glywed a'i ddeall. Mae bar offer hygyrchedd "Recite Me" yn helpu pobl i gael mynediad i wefan yr Awdurdod er mwyn iddynt fedru gwneud y pethau sydd eu hangen arnynt, fel cyrchu gwasanaethau'r Cyngor. Ym mis Gorffennaf, roedd Cyngor Merthyr Tudful hefyd yn gydradd 1af o blith y 403 o wefannau yn y DU a brofwyd o ran eu hygyrchedd.

At hynny, gellir defnyddio bar offer Recite Me ar gyfer y canlynol:

- darllen yn uchel y testun ar ein gwefan (gan gynnwys ffeiliau PDF)
- lawrlwytho'r testun fel ffeil MP3 i'w chwarae pa bryd a lle bynnag sy'n gyfleus i chi
- newid maint a lliw'r ffontiau
- addasu lliw'r cefndir

Dywedodd llefarydd ar ran y Cyngor: *"Gyda chyflwyniad y feddalwedd soffistigedig hon, dylai trigolion ag anableddau, gan gynnwys defnyddwyr heb anableddau, allu profi ein cynnyrch digidol gyda'r un canlyniad llwyddiannus. Mae'n bosibl y bydd gan rai pobl sy'n cyrchu ein gwybodaeth nam ar eu golwg, anawsterau echddygol, namau gwybyddol, anableddau dysgu, byddardod, neu nam ar y clyw. Mae'n bwysig, felly, bod ein gwefan, ein cynnwys, a'n dogfennau yn gweithio i bawb. Mae'n hanfodol parhau i weithio tuag at hygyrchedd digidol wrth gynhyrchu gwybodaeth ar dudalennau a dogfennau ar gyfer ein gwefan, er mwyn sicrhau bod gan bawb ran i'w chwarae ar hyd ein taith."*




Ydych chi'n rhiant sy'n gweithio, mewn addysg neu hyfforddiant? Gallech fod yn gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru!

Gallech dderbyn hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant wedi'i ariannu ar gyfer eich plentyn 3 i 4 oed, am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn.

Ewch i merthyr.gov.uk/30awr i ddarganfod mwy.

## DYSGU

# Eco-ryfelwyr Coed y Dderwen

Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Coed y Dderwen wedi bod yn gwneud y mwyaf o'u hamser yn dilyn y cyfnod clo, trwy ddefnyddio twneli poli a choedwig yn eu brwydr bersonol yn erbyn newid hinsawdd. Gydag arweiniad Pwyllgor Eco'r Ysgol, mae'r disgyblion yn datblygu sgiliau cynaliadwy fel tyfu llysiau, ffrwythau a phlanhigion o fewn ecosystem helaeth y tweneli poli. Maent hefyd yn gofalu am bryfaid ac adar o fewn tir yr ysgol, yn cynnal gwaith cadwraethol ar y goedwig ac yn aml yn dysgu am bwysigrwydd ailgylchu, lleihau gwastraff ac arbed dŵr - camau y maent hefyd yn eu rhoi ar waith drwy'r ysgol.

Dywedodd Sarah Townsin, Pennaeth Coed y Dderwen: *"Yn Ysgol Coed y Dderwen, mae pwysigrwydd cynaliadwyedd yn rhan annatod o'n cwricwlwm a'n cynlluniau ar gyfer cwricwlwm y dyfodol. Ein bwriad yw sicrhau bod gan bob disgybl ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas a'u heffaith ar ei ddyfodol. Rydyn ni'n gwneud yn fawr o'n hardal allanol wych a'r goedwig i gyfoethogi'r cwricwlwm a thyfu ffrwythau a llysiau fel y gallwn ni ysbrydoli'r gymuned ehangach i fod yn fwy cynaliadwy."*



## Meithrinfa "Safle'r Gurnos" yn dechrau pennod newydd i addysg Gymraeg



Ym mis Medi, agorwyd Meithrinfa Safle'r Gurnos – cam enfawr ymlaen i Ferthyr Tudful yn yr ymdrech i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg Gymraeg yng ngogledd y sir a datblygu amgylchedd Gymraeg yno.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed ers blynyddoedd i sicrhau darpariaeth a chyfathrebiad gweledol i'r Gymraeg ar draws y Fwrdeistref, a dyma naid arall i'r cyfeiriad hwnnw.

Dywedodd Sue Walker, y Cyfarwyddwr Addysg: *"Mae agor y drydedd ysgol cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful yn achlysur nodedig ac yn digwydd wrth i'r ysgol gyntaf, Ysgol Santes Tudful, ddathlu'i hanner canmlwyddiant. Mae twf addysg Gymraeg yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac rydym yn falch o weld y ddarpariaeth hon ar y map."*

## Arweinwyr ifainc yn gwthio am ddyfodol gwyrddach yng Nghynhadledd Siarter Pobl Ifanc

Cynhaliwyd Cynhadledd Newid Hinsawdd bwysig yng Ngholeg Merthyr Tudful eleni, lle daeth disgyblion o bob cwr o'r Fwrdeistref Sirol ynghyd i drafod syniadau ar gyfer y Siarter Pobl Ifanc. Siaradodd llawer o ddisgyblion yn y digwyddiad gan dynnu sylw at eu gweledigaethau ar gyfer Merthyr Tudful gynaliadwy. Dywedodd Michelle Jones, yr Aelod Cabinet dros Ddysgu: *"Rwy'i mor hapus ag angerdd ac ymroddiad y disgyblion hynny ar hyd a lled Merthyr Tudful sy'n mynd i'r afael â newid hinsawdd ac yn mabwysiadu arferion cynaliadwy. Pobl ifanc ein Bwrdeistref yw'r dyfodol o ran sicrhau ein bod ni'n parhau i ymarfer a hyrwyddo'r mentrau gwyrdd hyn - da iawn pawb!"*

## Camp Lawn Amrywiaeth i Ysgol Gynradd Trefedward

Mae rhai o ferched Ysgol Gynradd Trefedward wedi taclo'u ffordd i rownd gynderfynol Twrnamaint yr Urdd, gan chwarae mewn Tîm Rygbi TAG a hyrwyddo amrywiaeth mewn chwaraeon. Mae'r ysgol yn annog pawb sy'n angerddol dros rygbi i ymuno waeth beth fo'u rhyw, ac mae'r sesiynau yn cynnwys taclo, TAG a gwella sgiliau. Gall merched benderfynu pa sesiynau yr hoffent gymryd rhan ynddynt, gyda chymysgedd o gêmau cyswllt a digyswllt.

Dywedodd y Cyng Michelle Jones, yr Aelod Cabinet dros Ddysgu: *"Fel mam sydd wedi annog fy merch a fy mab i chwarae unrhyw gamp sy'n ennyn eu diddordeb, mae'n ardderchog gweld hyn yn digwydd i fechgyn a merched o fewn ysgolion. Mae rygbi wedi bod yn rhan enfawr o fy mywyd – fe fues i'n Ysgrifennydd Adran Fini ac Iau Clwb Rygbi Merthyr am 5 mlynedd. Mae'n hynod bwysig ein bod yn gweld amrywiaeth yn ein hysgolion, yn galluogi myfyrwyr i wireddu'u breuddwydion ac yn dileu unrhyw rwystr all eu hatal rhag cymryd rhan neu gystadlu. Mae Trefedward yn enghraifft o hyn a byddaf yn annog mwy o ysgolion y Fwrdeistref i weithredu camau tebyg."*




## Buddugoliaeth disgyblion Merthyr yn yr Eisteddfod

Yn gynharach eleni, bu disgyblion o Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful, Ysgol Uwchradd Pen-y-dre a Choleg Merthyr yn rhannu'u perfformiadau buddugol o Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych gyda Chynghorwyr.

Dywedodd y Cynghorydd Michelle Symonds, Hyrwyddwr y Gymraeg: *"Roedd yn wych gweld y plant a'r bobl ifanc yn perfformio darnau anhygoel o gerddoriaeth ac areithiau. Rwy'n dal i ryfeddu ynghylch y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yn ein hysgolion ym Merthyr Tudful. Dwi wir yn credu bod hyn yn enghraifft arall o Strategaeth Addysg CSCA ar ei hanterth. Da iawn pawb!".*



## Ysgol Uwchradd Pen Y Dre High yn cynhyrchu ffilm fer ar homoffobia

Yn ddiweddar, cydweithiodd disgyblion Ysgol Uwchradd Pen y Dre gyda Ffilm Cymru mewn ffilm fer o'r enw 'Look at Us' i bwysleisio bwlio yn seiliedig ar dueddfryd rhywiol. Cynhyrchodd y disgyblion gyda chymorth yr adran ddram ffilm fer gan action, gweithio'r camera, colur, golygu a datblygu sgiliau creadigol yn y broses. Dwedodd y Cyngh Gareth Richards, Eiriolwr Cydraddoldeb y Cyngor *"Rydw i'n falch bod un o'n hysgolion- Pen y Dre yn rhan o wneud y ffilm hon. Nid yw bwlio o unrhyw fath yn dderbyniol, ac rwy'n ymwybodol bod ysgolion yn gwneud eu gorau i ymateb iddo. Ond , mae ymchwil yn dangos bod bwlio yn digwydd yn aml oherwydd tueddfryd rhywiol rhywun. Gall hyn gymryd sawl math o alw enwau, gwamalu neu ymosod corfforol. Bydd ffilmiau fel hyn yn gwella dealltwriaeth Cymdeithas, da iawn Ysgol Uwchradd Pen y Dre."*



# Llwyddiant TGAU a Lefel A pobl ifanc Merthyr Tudful

Casglodd pobl ifanc ar draws Merthyr Tudful eu canlyniadau arholiadau yn gynharach eleni - y garfan gyntaf i sefyll arholiadau ers 2019.

Dwedodd y Cyngh Geraint Thomas, *"Roedd yn fraint ymweld â phob Ysgol uwchradd a rhannu'r cyffro gyda'r bobl ifanc wrth iddynt gasglu eu canlyniadau. Mae'r garfan hon wedi wynebu cymaint o anawsterau dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae llwyddo fel maent wedi ei wneud yn dysteb i'w dygnwch ac i gefnogaeth athrawon a rhieni. Sefydlwyd strategaeth Codi Dyhead, Codi Safonau yn Hydref 2020 ac rydym yn falch gweld uchelgais y strategaeth yn cael ei wireddu."*

Dwedodd y Cyngh Michelle Jones Arweinydd Portffolio Addysg, *"Rydw i mor falch o weld canlyniadau da'r bobl ifanc, er holl sialensiau'r blynyddoedd diwethaf. Mae'n braf gweld gwaith caled yn talu ar ei ganfed a dymunaf bob llwyddiant iddynt wrth symud i addysg bellach, hyfforddiant neu waith."*


## Disgyblion yn cydweithio i greu ap symudol ar faterion hinsawdd sef "Train 2 Sustain"

Yn ystod yr haf, cydweithiodd disgyblion Blwyddyn 5 yn Ysgolion Cynradd Troed-y-rhiw ac Ynysowen i greu ap ar gyfer Apple Store fel modd i gynnig cyngor rhyngweithiol ar arferion cynaliadwy wrth fynd ati i daclo newid hinsawdd.

Daeth y syniad gan ddisgyblion Troed-y-rhiw a oedd wedi'u hysbrydoli gan y Gynhadledd Genedlaethol ar Hinsawdd i godi ymwybyddiaeth o'r angen am newid ymddygiad i gefnogi'r agenda hwn. Gweithiodd y disgyblion gyda chwmni allanol sef Value-Added Education i greu ap ar gyfer rhannu'u neges. O fewn yr ap, defnyddir realiti estynedig i gynnig cyfrwng mwy integredig ac mae hyn i'w weld yn arbennig yn y gwaith celf. Mae gan yr ap flogiau am fyw bywyd mwy cynaliadwy a chaneuon am newid hinsawdd. Gan ddefnyddio "Minecraft" i greu seilwaith sero net, ychwanegodd y disgyblion fapiau sy'n dangos lleoliadau posib ar draws Cymru ar gyfer yr adeiladau hyn.

Dywedodd y Cyng Michelle Jones, yr Aelod Cabinet dros Ddysgu: *"Mae creu'r ap hwn wedi galluogi disgyblion y ddwy ysgol i ddatblygu sgiliau allweddol a chefnogi 4 diben y Cwricwlwm i Gymru, gan sicrhau bod ein pobl ifanc yn unigolion uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol ac iachus."*

Mae'r ap ar gael i'w lawrlwytho am ddim o'r AppStore: apps.apple.com/gb/app/train2sustain/id1625103646



# GWASANAETHAU CYMDOGAETH


## Mae dros 80 % o wastraff sbwriel yn cael ei ailgylchu diolch i finiau Ailgylchu Wrth Fynd!

Efallai eich bod wedi sylwi ar ein timau wedi gosod biniau sbwriel Ailgylchu wrth Fynd (AwF) newydd o amgylch Merthyr Tudful dros y flwyddyn ddiwethaf i helpu trigolion i ailgylchu tra allan.

Yr adborth gan ein criw casglu yw bod y biniau'n cael eu defnyddio fel y bwriad, felly hoffem ddiolch i drigolion ac ymwelwyr am reoli eu gwastraff yn gynaliadwy a rhoi deunyddiau yn y slotiau cywir!

Ers gosod y biniau cafodd 89 tunnell o ddeunyddiau ychwanegol eu casglu i'w hailgylchu, a fyddai wedi cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi yn flaenorol.

Dyma ddadansoddiad o ddeunyddiau a ganfuwyd mewn biniau sbwriel AwF:










# Paneli Solar yn helpu i leihau nwyon tŷ gwydr

Gosodwyd paneli solar yng Nghanolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig Aberfan a Dowlais yr haf diwethaf ac yn y flwyddyn ddiwethaf mae pob safle wedi llwyddo i leihau ei gynhyrchiant carbon gan 2,000kg – sy'n cyfateb i gar diesel mawr yn gyrru 6,000 o filltiroedd!

Mae hwn yn gam cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a tharged LlC i bob Cyngor fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030.

## A ydych yn berchen ar, neu a ydych yn gyfrifol am, Gwely a Brecwast Awyr?

Os felly, rydym yn eich annog i gysylltu â wasteservices@merthyr.gov.uk neu ffonio 01685 725000 fel y gallwn eich cynghori ar sut y gallwch ymdrin yn gynaliadwy â gwastraff a gynhyrchir yn yr eiddo hyn er mwyn sicrhau ein bod yn ailgylchu cymaint â phosibl. Mae'r gwasanaeth ailgylchu yn rhad ac am ddim felly cysylltwch â ni i gael eich cynwysyddion wedi'u dosbarthu

## DIWEDDARIAD A465: Gwaith Stryd Jones a Rocky Road

Fel rhan o broject ffordd ddeuol Ffordd Blaenau'r Cymoedd yr A465, mae'r contractiwr Future Valleys Construction – wedi cadarnhau y bydd y gwaith ar Stryd Jones a'r Ffordd Greigiog yn cynnwys cau'r ffyrdd o Ddydd Llun Awst 22ain 2022 am 6 mis.

**Cau Stryd Jones** – Mae'r ffordd ar gau yn gyfan gwbl rhwng Bythynod Guest a'r Hafod er mwyn i'r gwaith adeiladu pont newydd ddigwydd. Ni fydd mynediad i gerddwyr.

**Gwyriad Heol Pant** – er mwyn lleihau traffig ar Heol Pant tra bod Stryd Jones ar gau, ni fydd mynediad (ond i fysiau) i'r de tuag at Heol Pant a Stryd Victoria, o gyffordd Ystâd Ddiwydiannol Pant/ Heol Pant.

**Cau'r Heol Greigiog** Mae'r ffordd ar gau yn gyfan gwbl o'r gyffordd gyda'r cylchdro ar Heol Bryniau i'r dwyrain at y gyffordd gyda slipffordd yr A465 ar gyfer gwaith adeiladu.

**Bydd gwasanaethau bysiau rhif 33 a 35 yn cael ei heffeithio gan y gwaith hwn** – ewch i stagecoachbus.com am wybodaeth.

Gellir derbyn manylion llawn am y gwaith ar: gov.wales/a465-section-5-and-6-dowlais-top-hirwaun

Bydd eich casgliad ddiwrnod yn hwyrach dros gyfnod y Nadolig:

| DIWRNOD CASGLU ARFEROL: | YN CAEL EI GASGLU: |
|---|---|
| Dydd Llun Rhagfyr 26ain | Dydd Mawrth Rhagfyr 27ain |
| Dydd Mawrth Rhagfyr 27ain | Dydd Mercher Rhagfyr 28ain |
| Dydd Mercher Rhagfyr 28ain | Dydd Iau Rhagfyr 29ain |
| Dydd Iau Rhagfyr 29ain | Dydd Gwener Rhagfyr 30ain |
| Dydd Gwener Rhagfyr 30ain | Dydd Sadwrn Rhagfyr 31ain |
| Dydd Llun Ionawr2il | Dydd Mawrth Ionawr 3ydd |
| Dydd Mawrth Ionawr 3ydd | Dydd Mercher Ionawr 4ydd |
| Dydd Mercher Ionawr 4ydd | Dydd Iau Ionawr 5ed |
| Dydd Iau Ionawr 5ed | Dydd Gwener Ionawr 6ed |
| Dydd Gwener Ionawr 6ed | Dydd Sadwrn Ionawr 7fed |

**Casglu gwastraff cartref mawr**

Ni fydd casgliadau gwastraff mawr dros gyfnod y Nadolig.
Y diwrnod olaf fydd Dydd Gwener Rhagfyr 23ain a byddant yn ail gychwyn ddydd Mercher Ionawr 11eg.

**Ailgylchu Coed Nadolig**

Bydd Coed Nadolig Iawn yn cael eu casglu ar gais yn unig. Gellir archebu casgliad rhwng dydd Llun Rhagfyr 19eg ac Ionawr 4ydd.

**Sut i archebu:**
Ar-lein: merthyr.gov.uk/book-a-christmas-tree-collection
**Rhif Ffôn: 01685 725000**
Bydd casgliadau yn cychwyn ddydd Llun Ionawr 9fed.
Rhaid torri'r coed yn ddarnau llai,
dim hirach na 1.5 metr a dim trymach na 25kg.

**Canolfannau Ailgylchu a Gwastraff Cartref (CAGC)**

Bydd ein CAGC ar gau ddydd Sul a dydd Llun Rhagfyr 25ain a 26ain, a dydd Sul Ionawr 1af . Bydda r agor yn ystod oriau agor y gaeaf (9am – 4.30pm) ar bob dyddiad arall.

**Ailgylchu**

Ailgylchwch bopeth gallwch dros gyfnod y Nadolig, ar y pafin neu'r CAGC. Awgrymiadau defnyddiol:

- Ailgylchwch bapur lapio brown yn y blwch cardfwrdd
- Rhaid gosod cardiau Nadolig a phapur lapio yn y bin gwastraff cartref na ellir ei ailgylchu oherwydd natur amrywiol y deunyddiau
- Beth am leihau gwastraff bwyd ac arbed arian trwy gynllunio bwyd gyda bwyd sy'n weddill
- Plygwch neu rhwygwch flychau cardfwrdd fel eu bod yn ffitio yn y blwch ailgylchu, tynnwch yr holl becyn cyn ailgylchu

# Enwi'r fflyd a gallech ennill taleb Amazon £50

Yn ystod yr haf, prynodd y Cyngor 10 cerbyd ailgylchu newydd ac rydym angen eich help i'w henwi!

Mae ein fflyd ailgylchu wedi eu diweddaru i fod yn gerbydau mwy effeithlon gyda mwy o le i gardfwrdd, a system gwneud y daith orau, i wneud pob taith yn fwy effeithiol.

Mae un Cyngor yn Lloegr wedi rhoi cyfle i breswylwyr ddewis enwau i'w fflyd graeanu gydag enwau fel; David Plowie, Gritty Gritty Bang Bang, Walter The Salter and Spreaddie Mercury, yn cael eu cynnig. Felly, dyma gymryd y cyfle i gael hwyl gyda'n fflyd ailgylchu!

Mae'r gystadleuaeth ar agor i breswylwyr Merthyr Tudful o bob oed ac yn cau ddydd Mawrth Ionawr 31ain 2023.

Bydd enw pob cerbyd yn cael ei arddangos ar flaen pob un a bydd pob enillydd yn derbyn taleb Amazon £50.

i gynnig enw(au) ewch at:smartsurvey.co.uk/s/VehicleNames neu ffoniwch 01685 725000 gyda'ch awgrymiadau.



# Perchnogion Ceir Trydan yn Cael Mwy o Fannau i Wefru'u Cerbydau

Mae'r Cyngor yn cynyddu nifer y mannau lle gellir gwefru Cerbydau Trydan ar draws Merthyr Tudful er mwyn ymateb i'r twf yn y cerbydau hyn a chefnogi'r ymrwymiad i fod yn Awdurdod Lleol Net Sero erbyn 2030. Bydd y Cyngor yn gosod 13 o fannau gwefru mewn meysydd parcio cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol gyda chefnogaeth Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Connected Kerb Cyf sef y cwmni fydd yn gosod y gwefrwyr. Gyda datganiad "Argyfwng Hinsawdd" Llywodraeth Cymru, mae gan y Cyngor rôl bwysig i'w chwarae sef cefnogi'r uchelgais net sero a chryfhau arferion cynaliadwy ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Dywedodd y Cyng Geraint Thomas, yr Aelod Cabinet dros Adfywio ac Arweinydd y Cyngor: *"Mae gosod y mannau gwefru trydan yn enghraifft arall o'n hymrwymiad i gyflawni'r uchelgais o fod yn net sero ym Merthyr Tudful. Bydd yr isadeiledd o'r radd flaenaf ac nid yn unig yn cefnogi'r defnyddwyr cerbydau trydan yn y Fwrdeistref, ond hefyd yn mynd â ni gam yn nes at gyflawni ein hamcanion."*

## A ydych yn ystyried cyflwyno cais cynllunio?

Oeddech chi'n gwybod bod y Cyngor yn cynnig gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio a fydd – yn ogystal â dweud wrthych beth sydd angen i chi ei gyflwyno – yn rhoi arweiniad ar sut i sicrhau proses ymgeisio gyflym a llyfn, gan arbed amser ac arian i chi.

Mae'r taliadau'n dechrau ar £25 yn unig (yn dibynnu ar y math o ddatblygiad). Am wybodaeth ewch i: merthyr.gov.uk/resident/planning-and-building-control/make-a-planning-application/

## ADFYWIO



# Merthyr Tudful yn croesawu Casa Bianca

Casa Bianca, an award winning family-ruMae'r gadwyn o dai bwyta Eidalaidd Casa Bianca, sydd wedi ennill gwobrau wedi cyrraedd Merthyr Tudful.

Bydd y bwyty, sydd wedi ei leoli yng nghanol y dref yn agor ar safle cyn siop H Samuel ar gornel Stryd y Clastir a'r Stryd Fawr, gan roi bywyd newydd i un o adeiladau hanesyddol canol y dref.

Mae bwytai eraill Casa Bianca yn y Fenni a Threfynwy wedi ennill dau Ruban Glas yng Ngwobrwyon Bwyd 2022, ac mae'r gadwyn yn cynnig bwyd o safon, gwasanaeth da a gwerth am arian.

Mae'r fenter newydd yn bosibl diolch i fuddsoddiad cynllun creu lleoedd Llywodraeth Cymru, Trawsnewid Trefi, ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Dywedodd perchennog y bwyty, Andreas Christou: *"Rydyn ni wedi cael llwyddiant aruthrol gyda La Piccola yn Nhrefynwy a Casa Bianca yn y Fenni — a gobeithio y gallwn gyflawni'r un peth ym Merthyr Tudful, cyn ni ehangu ymhellach ar draws Cymru.*

*"Ers agor yn 2018, mae Casa Bianca yn y Fenni wedi datblygu sylfaen o gwsmeriaid teyrngar a chlos – gyda nifer yn teithio'n rheolaidd i fwyta gyda ni o Ferthyr Tudful.*

*"I gydnabod hynny, bu'n uchelgais agor cangen ym Merthyr Tudful ers peth amser - ac ni allaf ddiolch digon i'r cyngor am helpu i'w wireddu. Mae canol tref Merthyr Tudful yn datblygu'n gyflym dros ben, ac rydyn ni'n falch iawn o fod yn rhan o hynny."*

Dywedodd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Y Cynghorydd Geraint Thomas: *"Mae'n wych gweld bwyty poblogaidd arall yn agor yng nghanol y dref, a does dim dwywaith y bydd Casa Bianca yr un mor boblogaidd fan hyn ag ydyw yn y Fenni.*

*"Andreas Christou yw'r perchennog busnes diweddaraf i elwa o gyllid y Cyngor, gyda'i uchelgais personol - ochr yn ochr â'r llu o entrepreneuriaid lleol eraill rydym wedi'u helpu - gan gyfrannu'n uniongyrchol at ein uwch gynllun hirdymor ar gyfer y dref".*

# Gwaith ailddatblygu'r pwll nofio ar gychwyn

Mae'r gwaith o ail ddatblygu'r pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden Merthyr Tudful ar gychwyn ym mis Rhagfyr, gyda'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn yr Hydref nesaf.

Bydd y parc sglefr fyrddio gerllaw hefyd yn cael ei adnewyddu gyda'r project yn costio tua £5.3m yn gyfan gwbl. Bydd cynlluniau ar gyfer y parc sglefr fyrddio yn digwydd dros y gaeaf gyda'r gwaith o'i ail leoli yn nes at y ganolfan i gychwyn ddiwedd y Hwyr Gaeaf gyda dyddiad agora r ddechrau Gynnar Haf 2023.

Llwyddodd y Cyngor i dderbyn £3,863,924 o raglen trawsnewid trefi Llywodraeth Cymru, gyda £707,572 yn dod o'r Cyngor.

Rydym nawr yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful a'r arbenigwyr cynllunio hammden Alliance Leisure Services ar weithredu rhaglen di garboneiddio llawn ar gyfer y ganolfan ar arbedion ynni, ac ailwampio'r ystafelloedd newid.

*"Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i'r sector gyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030 er mwyn ymateb i newid hinsawdd",* meddai'r Cyngh Geraint Thomas. *"Byddwn yn cefnogi hyn trwy gynnal nifer o gamau i leihau allyriadau carbon y gwaith sy'n effeithio ar newid hinsawdd.*

*"Fel mae nwyon t gwydr wedi cynyddu, mae Merthyr Tudful wedi profi'r holl symptomau o newid hinsawdd sydd wedi ei greu gan ddyn gan gynnwys, tywydd cyfnewidiol, llygredd aer, tywydd poeth a newid mewn bioamrywiaeth,"* ychwanegodd.

*"Mae costau ychwanegol wedi dod gyda hyn, ac mae preswylwyr a busnesau wedi brwydro gyda difrod a achoswyd gan lifogydd a tharfu are u bywyd pob dydd."*





## Bachwch y gofod gwaith perffaith

Mae busnesau sy'n chwilio am y gofod gwaith perffaith sy'n ateb pob angen yn gallu dod o hyd i'r lleoliad delfrydol ym Merthyr Tudful.

Mae gan y ganolfan , a agorwyd yn 2008 gyfanswm o 60,000 troedfedd sgwâr o swyddfeydd, ystafell bwyllgor, ystafelloedd cynadleddau a hyfforddiant gyda thechnoleg cyfarfodydd hybrid a band llydan ffibr cyflym iawn.

Mae ystafelloedd i'w rhentu addas i bob maint busnes rhwng dau a 30, wedi eu dodrefnu gyda desgiau, cadeiriau, system ffon a chefnogaeth weinyddol a TG.

Mae'r denantiaeth yn cynnwys mynediad at wasanaeth argraffu, sganio a llungopïo. Mae teledu gydag adloniant a Newyddion 24, a thimau yn cynnig cefnogaeth busnes, gweinyddu a chegin a chyfleusterau ystafell staff.

Ffoniwch 01685 352700 neu e-bostio info@orbitbusinesscentre.co.uk os oes gennych ddiddordeb mewn rhentu'r swyddfa.






# Dechrau da - Artist lleol yn agor yr oriel gelf, breifat gyntaf ynghanol tref Merthyr Tudful

Mae Aimie Sutton, artist portreadau lleol wedi agor y stiwdio ac oriel gelf annibynnol/breifat gyntaf ym Merthyr Tudful a hynny yn dilyn llwyddiant ei busnes ar-lein yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Agorodd 'The Art of Aimie,' yn swyddogol ddechrau Gorffennaf ac mae wedi bod yn brysur ers hynny gan ddod â lliw a diwylliant i ganol y dref.

Dechreuodd y cyfan wedi i anaf rhedeg gadw Aimie o'r gwaith am bythefnos yn 2017. Nid oedd fodd iddi adael y tŷ ac ailgydiodd yng nghariad ei phlentyndod a dechrau darlunio â phensiliau a'u postio ar-lein er mwyn i'w theulu a'i ffrindiau eu gweld.

Yn dilyn hyn, dechreuodd Aimie dderbyn comisiynau gwaith pensil, acrylig ac olew ar ei thudalen Facebook - denodd hyn nifer fawr o ddilynwyr, ledled Merthyr a'r Cymoedd.

Yn raddol, tyfodd ei llyfr archebion a llwyddodd Aimie, sydd yn fam i dri o blant ddyfod yn artist llawn amser. Roedd angen lle parhaol arni i greu ac arddangos ei chelf ac mae'n awr ar Stryd y Clastir.

Cafodd y fenter ei gwireddu yn sgil cymorth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chynllun 'Yn y Cyfamser' sydd yn hwyluso mentrau newydd sydd o fudd i drigolion ac ymwelwyr Merthyr Tudful i agor mewn eiddo gwag yn y dref.

Derbyniodd 'The Art of Aimie' gefnogaeth yn ogystal gan Ganolfan Fentergarwch Merthyr Tudful (CMMT) – prosiect cydweithredol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Hyfforddiant Tudful, sydd yn cefnogi anghenion busnesau newydd a busnesau sydd yn bodoli'n barod.

*"Mae wedi bod yn wych i ddarganfod cymuned artistig Merthyr Tudful. Rwyf wedi cwrdd â chymaint o bobl sydd wedi galw heibio i drafod eu hoffter o gelfyddyd a rhannu eu gwaith â mi. Mae cymorth y Cyngor wedi bod yn wych yn ystod fy nhaith ac rwy'n ddiolchgar i fyw mewn tref sydd yn gosod cymaint o bwysigrwydd ar gefnogi busnesau lleol, newydd."*



## ADFYWIO

# 7 mlynedd o lwyddiant sefydlu busnesau



Mae 2022 yn dynodi saith mlynedd ers sefydlu Canolfan Fenter Merthyr Tudful (MTEC) — prosiect cydweithredol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Tydfil Training, sy'n cefnogi anghenion busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes ym Merthyr Tudful.

Wedi'i chreu o'r angen i greu hwb busnes yng nghanol y dref, mae MTEC yn cynnig dull newydd o gefnogi busnesau ym Merthyr Tudful - gan ddarparu cyfleuster corfforol i brofi masnach, meithrin a chyfleusterau twf yn ogystal â chefnogaeth prif ffrwd. Cefnogir hyn i gyd gan dîm cymorth penodol ar y safle.

Heddiw, y 12fed o Awst — a dim ond wyth mis o'r flwyddyn wedi bod — mae MTEC wedi cyhoeddi cynnydd enfawr o 36% yn nifer y cofrestriadau am gymorth busnes a dderbyniwyd o gymharu â 2021. Yn ei dro, mae hyn wedi arwain at gynnydd o 20% yn nifer y busnesau a ddechreuwyd — gyda 2022 ar y trywydd iawn i fod yn flwyddyn orau MTEC ar gofnod.

Dros y blynyddoedd, mae MTEC wedi helpu dros 200 o fusnesau newydd llwyddiannus o sawl sector — gan gynnwys manwerthu, gweithgynhyrchu a lletygarwch, a thrwy helpu i newid wyneb canol tref Merthyr Tudful.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi bod yn gefnogol gyda'r gwaith o ddarparu MTEC dros gyfnod o saith mlynedd — fel partner hollbwysig sy'n cynnig gwasanaethau ychwanegol megis y Rhaglen 'Yn y Cyfamser', sy'n creu cyfleoedd i berchnogion busnes sefydlu mewn eiddo gwag yng nghanol y dref.

Dywedodd Paul Gray, Prif Weithredwr Tydfil Training: *"Dros y blynyddoedd, mae MTEC wedi gweithio i annog menter, entrepreneuriaeth a chyflogaeth ym Merthyr Tudful, gan ddod yn bwynt cyswllt canolog ar gyfer busnesau newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes. Gyda chefnogaeth y tîm cymorth penodol ar y safle, mae MTEC yn sicrhau bod perchnogion busnes yn gallu cael mynediad i'r cymorth cywir ar yr adeg gywir, a hynny gan y partner cywir.*

Dywedodd Adam Smith, perchennog Niche Website Development: *"Gyda diolch i gymorth MTEC a'r Cyngor, roeddwn i'n gallu agor fy musnes ym mis Mawrth 2019. Ers hynny, mae MTEC wedi parhau i fod yn adnodd gwych - gan sicrhau fy mod nid yn unig wedi agor fy musnes, ond ei fod yn aros ar agor hefyd. Mae'r tîm yn ymroddedig i helpu busnesau o bob math a galla i ddim diolch digon iddyn nhw."*

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Geraint Thomas: *"Bu'r pandemig yn gyfnod anodd i fusnesau lleol ym Merthyr Tudful, Cymru a thu hwnt – felly mae'n galondid i mi glywed am gynnydd sylweddol MTEC mewn cofrestriadau am gymorth busnes a busnesau newydd ar gyfer 2022."*

Am fwy o wybodaeth am MTEC, cysylltwch â Karl Griffiths ar 01685 727509.

# Gwelliannau Teithio Llesol

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld y Cyngor yn cwblhau'r gwaith ar gyfres o brojectau gwella cerdded a seiclo fel rhan o'i rhaglen Teithio Lesol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Llwybr wedi ei rannu i gerddwyr a seiclwyr yn rhedeg ar yr Avenue de Clichy o gylchdro Caedraw i'r system gylchol; croesfan parallel newydd; lledu'r llwybr o 1.3m i 3m; a gosod gardd law ar hyd y cynllun yn barod i blannu 2,500 o goed.
- Adeiladu llwybr i'w rannu 3.5m o led i gerddwyr a seiclwyr ar hyd Stryd Bethesda.
- Diweddaru'r groesfan ar Stryd Fictoria yn groesfan sebra.
- Gwelliannau i gerddwyr ar gylchdro Tesco er mwyn gwneud croesi'r ffordd yn haws.
- Cyflwyno croesfan ar y Stryd Fawr Isaf rhwng y maes parcio a'r siopau.
- Gwella'r diogelwch a chroesfan i gerddwyr ar Stryd y Llys.



Cylchdro Tesco



Stryd y Llys



Chapel Banks



Stryd Bethesda



Avenue De Clichy

# Adferiad dalgylch Taf Bargoed yn dod yn ei flaen

Mae elfen bwysig o broject i wella dyfrffordd Taf Bargoed -sef llif y dŵr i'r llyn ym Mharc Taf Bargoed- wedi ei gwblhau ar amser.

Mae'r llyn wedi ei ddyfnhau mewn sawl lle, yn arbennig yr ardal hyfforddi canŵ ac ochr ogleddol y llyn, gyda'r silt a oedd wedi adeiladu yn cael ei ffurfio yn fwnd newydd yn y dŵr.

*"Roedd y cydweithrediad rhwng budd ddeiliaid, y clybiau can a physgota lleol a swyddogion ac Aelodau'r Cyngor yn allweddol wrth i ni gwblhau'r gwaith ar amser,"* meddai Rachel Morton Rheolwr y Project.

*"Fe wnaethom ni wynebu sawl rhwystr annisgwyl, ond gweithiodd pawb yn gytûn,"* meddai ac ychwanegodd. "Bydd y contractwyr Salix yn ôl yn y gwanwyn i blannu ardal yr ynys- a diogelu yn erbyn y gwyddau!

*"Am nawr, mae ffensys ac arwyddion wedi eu gosod er mwyn stopio pobl rhag mynd ar y bwnd. Efallai ei fod yn edrych yn gadarn ond o dan y wyneb bydd fel traeth byw am flynyddoedd i ddod.*

*"Rydym yn dal i weithio i fyny'r afon i osod ffens a diogelu yn erbyn erydiad a chael gwared a theiars sydd wedi eu gadael. Mae disgwyl i'r project ddod i ben yn y misoedd nesaf."*

# Cynllun Prydlesu Cymru

**Ydych chi'n landlord sydd ag eiddo i'w rentu? A ydych wedi meddwl am brydlesu drwy eich awdurdod lleol?**

Cynllun Prydlesu Cymru, Mae'r cynllun prydlesu a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yn cynnig incwm rhent gwarantedig am rhwng 5 ac 20 mlynedd. Mae'r manteision ychwanegol yn cynnwys:

- incwm rhent gwarantedig ar gyfer cyfnod y brydles
- bod eich eiddo wedi'i ddychwelyd atoch ar ddiwedd y brydles yn yr un cyflwr ag yr oedd ar ddechrau'r brydles, llai o ôl traul deg
- yr holl waith cynnal a chadw ac atgyweirio a reolir gan yr awdurdod lleol am gyfnod y brydles
- rhent sy'n hafal i gyfradd Lwfans Tai Lleol heb ffi reoli y cytunwyd arni
- rhoi hyd at £5000 ar gyfer unrhyw welliannau sy'n ofynnol i godi'r eiddo i safonau Llywodraeth Cymru. Neu hyd at £25,000 ar gyfer eiddo gwag
- rheoli tenantiaethau wedi'u teilwra a chymorth tai parhaus a ddarperir gan weithwyr cymorth o fewn yr awdurdod lleol. Helpu'r tenant i gynnal ei denantiaeth a chyflwr yr eiddo.

I gael gwybod mwy, cysylltwch â Craig Hughes ar


☎ 07598404368

✉ craig.hughes@merthyr.gov.uk

# Amseroedd cyffrous i ganol y dref

Cafodd Cynllun Canol Tref Merthyr Tudful gychwyn gwych, gyda nifer o rannau yn cael ei wireddu dros y blynyddoedd nesaf..

Mae gwelliannau i'r Orsaf Drenau a gwaelod y Stryd Fawr ac ailddatblygiad yr hen orsaf fysiau ar Stryd y Clastir yn ddau o'r projectau allweddol i drawsnewid lefel nesaf canol y dref.



Yn y cyfamser, mae'r gwaith o ailwampio dau adeilad amlwg a fu'n wag bellach wedi ei gwblhau ac ar fin ei gwblhau: mae'r cyn siop H Samuel bellach yn fwyty Eidalaidd Casa Bianca, a bydd hen Fecws Howfield yn agor fel gwesty moethus, fflatiau a bistro/bar yng ngwanwyn 2023.

Bydd golygfa ganol y dref yn cael ei adfywio gyda ffocws arbennig ar adeiladau amlwg Rhestredig o werth cymdeithasol, hanesyddol a/neu bensaernïol- er enghraifft y Synagog, sydd nawr yn berchen i Sefydliad Dreftadaeth Iddewig sy'n bwriadu ei drawsnewid yn Amgueddfa Dreftadaeth Iddewig.

Ar ochr ogleddol y Stryd Fawr, mae Rhaglen Treflun Dreftadaeth Pontmorlais yn parhau i adnewyddu wyneb adeiladau pwysig, ac ailddatblygu Parc Pontmorlais.

Rhai o'r projectau hirdymor dros 15 mlynedd y cynllun yw: Yr Ysbyty Cyffredinol, ble mae'r Cyngor yn cydweithio gyda datblygwr preifat i ystyried opsiynau ar ddatblygu'r safle; Y Theatre Royal, ble mae cyllid wedi ei ddiogelu ar gyfer astudiaeth dichonoldeb a gwerthuso opsiynau; y YMCA, ble mae gwaith cyfalaf yn digwydd ar hyn o bryd; a chyn Safle Ysbyty Santes Tudful, ble mae bwriad o adeiladu 70 o dai newydd.

Dwedodd Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Adfywio'r Cyngh Geraint Thomas: *"Mae'r gyfnewidfa fysiau trawiadol, sydd wedi ennill gwobrwyon wedi cychwyn y trawsnewid i ganol y dref, a gyda help preswylwyr, busnesau, siopwyr a'r gymuned ehangach- gallwn siapio'r Datblygiad ymhellach.*

*"Erbyn 2035, bydd Merthyr Tudful wedi ei thrawsffurfio yn ganol tref ffyniannus yn wahanol i'r tuedd sy'n gweld canol trefi yn dirywio. Mae'r gwaith wir wedi cychwyn."*






**Ym mis Medi fe wnaethom ymuno â phobl ledled y byd i fynegi ein tristwch mawr ar farwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II.**

Bu trigolion Merthyr Tudful yn gyflym i dalu teyrnged i'r ddiweddar Frenhines, gan osod teyrngedau blodau, arwyddo llyfrau cydymdeimlad, a mynychu gwasanaethau er cof amdani.

Yn ystod ei theyrnasiad, roedd hi'n symbol o sefydlogrwydd trwy ddegawdau lle mae'r byd wedi gweld llawer o newidiadau.

Ymwelodd y Frenhines â Merthyr Tydfil nifer o achlysuron, yn fwyaf nodedig yn fuan ar ôl Trychineb Aberfan, lle a oedd yn annwyl i'w chalon.

Gallwn edrych yn ôl yn ddiolchgar ac edrych ymlaen at gynnig ein cefnogaeth a'n teyrngarwch i'n Brenin Siarl III newydd.

# COST OF LIVING

SUPPORT & ADVICE

**Os ydych chi'n pryderu am yr argyfwng Costau Byw, rydym am i chi wybod bod y Cyngor yn gwneud popeth y gallwn i gefnogi'r preswylwyr trwy'r amseroedd caled hwn.**

**Ar hyn o bryd rydym yn cynhyrchu rhifyn arbennig o Cyswllt yn nodi yn benodol y cymorth sydd ar gael, o ble a phryd.**

**Bydd y cyhoeddiad yn cael ei anfon i bob cartref yn yr wythnosau nesaf. Yn y cyfamser gallwch ymweld â merthyr.gov.uk/cost-of-living neu ffonio 01685 725000 am wybodaeth.**

Heneiddio'n dda Merthyr Tudful – Ageing Well Merthyr Tydfil

Mae'r Cyngor am ymgysylltu â thrigolion 50+ oed ynghylch y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymuned.

I gwblhau ein harolwg ar-lein ewch i: smartsurvey.co.uk/s/MTCBC50PlusSurvey

Mae copïau papur ar gael yn nerbynfa'r Ganolfan Ddinesig neu drwy anfon e-bost at ageingwell@merthyr.gov.uk

Am unrhyw sylwadau neu adborth penodol, cysylltwch ag ageingwell@merthyr.gov.uk

50+ Forum Fforwm 50+

Mae'r Cyngor yn cefnogi ymgysylltu â'n Fforwm 50+ lleol. Mae'r Fforwm wedi'i gynllunio i gynrychioli hawliau a barn pobl 50+ oed ar draws Merthyr Tudful i herio gwahaniaethu ar sail oed, i ymgynghori â phobl 50+ a rhoi gwybod iddynt am faterion sydd o ddiddordeb iddynt ac i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd.

I gymryd rhan, cysylltwch ag ageingwell@merthyr.gov.uk

BEDLINOG AND TRELEWIS COMMUNITY COUNCIL

## Diweddariad i breswylwyr Bedlinog a Threlewis:

Mae gennym gyfeiriad gwefan newydd bedlinogtrelewis-cc.gov.wales <http://www.bedlinogtrelewis-cc.gov.wales> ble gallwch ddod o hyd i wybodaeth am ddyddiadau cyfarfodydd, agenda, munudau, gwybodaeth ariannol, manylion cyswllt eich Cynghorwyr Cymunedol a llawer mwy! Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 ar y wefan ym mis Medi, felly ewch i weld pa waith sydd wedi ei wneud yn ein cymuned.

Ym mis Hydref 2021 lansiwyd **Arolwg Ymglymiad Cymunedol.** Cafwyd ymateb gan 51% gan breswylwyr Bedlinog a 49% o Drelewis. Gofynnwyd sut fyddech chi'n hoffi gweld yr arian yn cael ei wario a'r pedwar prif fater oedd:

- i wneud mwy o arian ar gael i grwpiau cymunedol
- Taclo unigrwydd yn y gymuned
- Mwy o ddarpariaeth i bobl ifanc yn y gymuned
- Taclo sbwriel

Mae'r Cyngor Cymuned wedi ariannu **Goleuadau Nadolig** eto eleni yn Nhrelewis a Bedlinog. Mae costau'r golau wedi cynyddu felly nid ydym yn gallu gosod cymaint â llynedd, er bod preswylwyr wedi dweud nad oedd hyn yn flaenoriaeth gwariant.

Byddwn yn gweithio ar gynhyrchu taflen newyddion i breswylwyr ac mae'r diweddariadau i'w gweld ar Facebook, Twitter ac Instagram.